



Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ar y Cyd 2015 –2018

Er mwyn cael y ddogfen hon mewn fformat hygyrch (e.e. print mwy o faint neu CD sain), cysylltwch â ni:

Ffôn:
101

E-bost:
publicservicecentre@south-wales.pnn.police.uk
commissioner@south-wales.pnn.police.uk

Gwefan:
www.south-wales.police.uk
www.southwalescommissioner.org.uk

Cadw De Cymru'n Ddiogel

Rhagair

Mae ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ar gyfer 2015 - 2018 yn nodi ein penderfyniad i fynd ati ar y cyd i sicrhau bod Heddlu De Cymru yn cyflawni ein hamcanion cydraddoldeb allweddol. Mae'r ddogfen hon yn nodi ein cynlluniau i sicrhau y rhoddir sylw dyledus i gydraddoldeb a bod cynnydd yn cael ei fonitro'n barhaus.

Ein gweledigaeth yw sicrhau mai Heddlu De Cymru 'yw'r gorau am ddeall ac ymateb i anghenion ein cymunedau'. Gwyddom na ellir gwneud hyn heb flaenoriaethu cydraddoldeb ac amrywiaeth a gweithio i gyflawni canlyniadau gwirioneddol.

Byddwn yn cyfleu'r amcanion i bob rhan o Heddlu De Cymru ac yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau'r newid sydd ei angen er mwyn cyflawni ein nodau.

Rydym yn cydnabod bod llawer mwy i'w wneud bob amser er mwyn i bawb yn Ne Cymru allu byw yn rhydd o wahaniaethu, aflonyddu, anghydraddoldeb ac anfantais. Gobeithiwn y bydd ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb yn dod â ni yn nes at wireddu ein gweledigaeth drwy adeiladu ar y cynnydd sydd eisoes wedi'i wneud o ran hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau
Y Gwir Anrh Alun Michael

Y Prif Gwnstabl
Peter Vaughan QPM

Cyflwyniad

Mae Heddlu De Cymru yn gwasanaethu 1.3 miliwn o bobl, sy'n cyfateb i 42% o boblogaeth Cymru. Hwn yw'r 8^{fed} heddlu mwyaf yng Nghymru a Lloegr. Mae ardal yr heddlu yn cwmpasu saith ardal awdurdod lleol, sef Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Bro Morgannwg.

Rydym yn gwasanaethu poblogaeth amrywiol, gyda 6.6% o bobl yng Nghyfrifiad 2011 yn nodi eu bod yn perthyn i leiafrif ethnig. Mae hyn yn amrywio'n fawr ledled ardal Heddlu De Cymru, gyda thua 16% yn dod o gefndir du a lleiafrifoedd ethnig yng Nghaerdydd o gymharu â thua 2% sy'n dod o gefndir du a lleiafrifoedd ethnig ym Merthyr Tudful. Mae cyfanswm o 23% o'n poblogaeth yn nodi bod ganddynt nam neu salwch hirdymor sy'n effeithio ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd, mae 54% yn nodi eu bod yn Gristnogion ac mae 35% yn nodi nad oes ganddynt unrhyw grefydd o gwbl. Mae niferoedd bach yn nodi eu bod yn Fwdistiaid, yn Hindŵaid, yn Iddewon, yn Fwslimiaid neu'n Siciaid. Nid oes unrhyw ddata ar gael i'r cyhoedd ar gyfeiriadedd rhywiol na hunaniaeth drawsrywiol ond amcangyfrifir bod tua 6% o'r boblogaeth gyffredinol yn hoyw, yn lesbiaid neu'n ddeurywiol, gyda llai na 6% yn nodi eu bod yn drawsrywiol.

Mae Heddlu De Cymru yn ymateb i'r cyhoedd 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. Rydym yn sefydliad **proffesiynol, balch a phositif** â 5,000 o gyflogeion, sy'n cynnwys swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu. Ein diben yw 'Cadw De Cymru'n Ddiogel' a'n gweledigaeth yw:

'Sicrhau mai ni yw'r gorau am ddeall ac ymateb i anghenion ein cymunedau'.

Mae Cynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddau ar gyfer Heddlu De Cymru yn nodi'r blaenoriaethau strategol allweddol, sy'n cynnwys 'Cydraddoldeb, Tegwch, Amrywiaeth a Thlodi'. Rydym yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb ym mhopeth a wnawn fel y bydd yn dod yn rhan o'n gwasanaeth bob dydd.

Y Ddeddf Cydraddoldeb

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn hyrwyddo cydraddoldeb ar gyfer y nodweddion gwarchodedig canlynol:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu Rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Hil
- Crefydd a chred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd Rhywiol

Mae'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol yn un Rhan o'r Ddeddf, sy'n nodi bod yn rhaid i bob awdurdod cyhoeddus (sy'n cynnwys Heddlu De Cymru), wrth arfer ei swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen i wneud y canlynol:

- 1) Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf neu oddi tani,
- 2) Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu,
- 3) Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

Mae'r Ddyletswydd Gyffredinol yn gymwys yn benodol i bob nodwedd warchodedig ac eithrio priodas a phartneriaeth sifil. Fodd bynnag, mae dyletswydd o hyd i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ar gyfer y nodwedd hon.

Y Dyletswyddau Penodol

Fel corff cyhoeddus heb ei ddatganoli yng Nghymru, mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â Dyletswyddau Penodol y Ddeddf Cydraddoldeb yn y DU, sy'n golygu bod yn rhaid i ni wneud y canlynol:

- Cyhoeddi gwybodaeth bob blwyddyn i ddangos ein bod yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol,
- Paratoi a chyhoeddi (un neu fwy o) amcanion cydraddoldeb y dylid eu cyflawni, yn ein barn ni, er mwyn bodloni nodau'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol,
- Sicrhau bod ein hamcanion cydraddoldeb yn benodol ac yn fesuradwy ac y cânt eu cyhoeddi mewn ffordd sy'n hygyrch i'r cyhoedd.

Yr amcanion cydraddoldeb a nodir yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb hwn yw'r rhai a ddewiswyd gennym fel y meysydd allweddol y mae angen i ni roi sylw iddynt er mwyn cyflawni ein nodau o dan y Ddyletswydd Gyffredinol; maent wedi'u nodi mewn ymgynghoriad â sefydliadau cynrychioliadol.

Ceir ein dogfen flynyddol, 'Gwybodaeth am Gydraddoldeb', ar wefan Heddlu De Cymru (www.south-wales.pnn.police.uk). O 2015 bydd y wybodaeth hefyd yn adrodd ar y cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn ein hamcanion.

Amcanion Cydraddoldeb Heddlu De Cymru

Amcan 1 (Troseddau Casineb)

Byddwn yn gweithio i ddeall profiad dioddefwyr o droseddau casineb ac ymgysylltu â'r rhai sy'n llai tebygol o roi gwybod am droseddau o'r fath er mwyn nodi rhwystrau a'u dileu. Bydd hyn yn sicrhau boddhad dioddefwyr ac yn helpu i leihau erledigaeth sy'n digwydd dro ar ôl tro. Gan weithio gyda'nartneriaid, byddwn yn nodi achosion risg uchel o aflonyddu sy'n gysylltiedig â chasineb ac annog ymyrraeth gadarnhaol a chynnar drwy broses amlasiantaeth.

Pam Rydym Wedi'i Ddewis

Yn 2013, nododd astudiaeth o droseddau casineb a oedd yn cwmpasu Cymru gyfan¹ pa mor gyffredin yw troseddau casineb yng Nghymru a'r effaith anghymesur y mae troseddau casineb yn ei chael ar ddioddefwyr. Nododd fod troseddau casineb yn parhau i gael eu tangofnodi a bod llawer o ddioddefwyr troseddau o'r fath yn profi sawl digwyddiad o'r fath.

Dengys data Heddlu De Cymru ar achosion o droseddau casineb fod digwyddiadau yn debygol o gael eu tangofnodi o hyn yn ardal yr heddlu am nad ydym yn cael y nifer o adroddiadau y byddem yn disgwyl ei chael gan ein poblogaeth fawr. Dros y ddwy flynedd diwethaf rydym wedi gweld gwelliant mawr yn lefelau boddhad dioddefwyr troseddau casineb sydd wedi rhoi gwybod i Heddlu De Cymru am ddigwyddiadau, ond nid yw'r lefel mor uchel ag yr hoffem iddi fod o hyd. Rydym am sicrhau bod dioddefwyr troseddau casineb yn cael ymateb sensitif a phriodol drwy gydol eu holl brofiad gyda ni a byddwn yn blaenoriaethu'r ffordd rydym yn delio â throseddau casineb er mwyn i hyn allu digwydd.

Drwy ddefnyddio prosesau cynllun gweithredu ar gyfer dioddefwyr troseddau casineb rydym wedi llwyddo i gefnogi dioddefwyr yn fwy effeithiol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rydym am sicrhau bod y broses hon wedi'i hymgorffori a'i bod yn arwain at leihad yn nifer y digwyddiadau mynych a brofir gan ddioddefwyr troseddau casineb.

Mae Cynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddu yn trin troseddau casineb fel mater o flaenoriaeth. Golyga hyn, ynghyd â *'Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu'*, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, fod gennym gyfle i gyflawni cryn dipyn o ran yr amcan cydraddoldeb hwn.

Rydym am weithio gyda grwpiau lleiafrifol a'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli er mwyn sicrhau y gallwn nodi achosion risg uchel o aflonyddu sy'n gysylltiedig â chasineb yn gynnar. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn rhannu gwybodaeth a ddeler gennym fel y gallwn gefnogi dioddefwyr drwy eu profiad a delio'n effeithiol â'r rhai sy'n cyflawni troseddau. Mae Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg (MARACs) wedi'u defnyddio yn Ne Cymru mewn achosion risg uchel o gam-drin domestig ers sawl blwyddyn. Rydym am sefydlu system debyg ar gyfer achosion risg uchel o aflonyddu sy'n

¹ M. Williams a J. Tregidga (2013) All Wales Hate Crime Research Project: Time for Justice.

gysylltiedig â chasineb fel y gellir rhannu gwybodaeth a ddelir gan asiantaethau gwahanol a chefnogi dioddefwyr yn effeithiol ac yn sensitif.

Byddwn hefyd yn cysylltu ein gwaith ar aflonyddu sy'n gysylltiedig â chasineb â'n gwaith ehangach ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Bydd hyn yn cynnwys ystyried ble y gellir gwneud cysylltiadau â sbardun cymunedol Heddlu De Cymru (menter sy'n galluogi dioddefwyr i gael eu cefnogi gan ddefnyddio dull amlasiantaeth pan fodlonir meini prawf penodol).

Yr Hyn Rydym Am Ei Gyflawni

Er mai ymateb arferol yr heddlu i droseddu yw sicrhau ei fod yn cael ei ostwng, mae gwaith ymchwil yn dangos yn glir bod troseddau casineb yn cael eu tangofnodi'n sylweddol ac, felly, mae hwn yn faes lle rydym am weld cynnydd yn nifer y troseddau y rhoddir gwybod amdanynt. Felly, rydym am weld nifer y digwyddiadau sy'n gysylltiedig â chasineb y rhoddir gwybod i ni amdanynt yn cynyddu er mwyn adlewyrchu maint gwirioneddol y broblem hon a'r ffaith bod ein cymunedau yn teimlo'n fwy hyderus i roi gwybod i ni am ddigwyddiadau o'r fath. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn ystyried cynnal arolwg cyfnodol o ddioddefwyr troseddau casineb ledled Cymru a all fesur pa mor hyderus ydynt i roi gwybod am droseddau o'r fath.

Er ein bod am weld cynnydd yn nifer y troseddau y rhoddir gwybod amdanynt, rydym am weld lleihad yn nifer yr achosion o aflonyddu a brofir gan ddioddefwr unigol a lleihad yn nifer yr achosion risg uchel, oherwydd byddai hyn yn adlewyrchu ymyrraeth gynnar a chamau gweithredu priodol gan nifer o asiantaethau.

Rydym hefyd am weld cynnydd yn lefelau boddhad dioddefwyr er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod dioddefwyr yn cael gwell profiad wrth gysylltu â ni. Bydd dull amlasiantaeth o ymyrryd mewn achosion risg uchel o aflonyddu sy'n gysylltiedig â chasineb yn darparu gwell ymateb i ddioddefwyr. Pan nodir dioddefwyr risg uchel (sy'n aml yn profi sawl achos o aflonyddu), bydd asiantaethau priodol yn gallu rhannu gwybodaeth am y dioddefwr a chydweithio er mwyn cefnogi a diogelu'r dioddefwr tra'n ystyried dulliau o atal aflonyddu pellach.

Rydym hefyd yn anelu at ddarparu rhaglen dreigl barhaus o hyfforddiant troseddau casineb i swyddogion a staff fel y gellir ymgorffori nodau'r amcanion ym mhob rhan o Heddlu De Cymru.

Sut y Byddwn yn Mesur Cynnydd

Defnyddir y dulliau canlynol i helpu i gyflawni ein nodau:

- Datblygu a chyflwyno Cynllun Gweithredu ar Droseddau Casineb ar gyfer y cyfnod rhwng 2015 a 2018, ynghyd â strwythur adrodd ffurfiol i fonitro cynnydd ym mhob un o'n pedair Uned Reoli Sylfaenol.
- Cyflwyno a datblygu Bwrdd Cyfiawnder Troseddol a Rheoli Troseddwyr Integredig newydd De Cymru er mwyn monitro Troseddau Casineb o'r adeg y rhoddir gwybod amdanynt nes iddynt gael eu gwaredu'n derfynol.

Caiff y mesurau canlynol eu casglu a'u monitro:

- Rhifau cofnodi achosion o droseddau casineb ar gyfer pob categori o droseddau casineb rydym yn eu monitro (gyda'r nod o sicrhau cynnydd yn nifer y troseddau casineb y rhoddir gwybod amdanynt)
- Lefelau boddhad dioddefwyr troseddau casineb ar gyfer 'pa mor hawdd ydyw i gysylltu', 'y camau a gymerir', 'cyswllt dilynol', 'y ffordd y caiff dioddefwyr eu trin', a'r 'profiad cyfan'
- Boddhad dioddefwyr ymhlith dioddefwyr troseddau casineb a dioddefwyr troseddau eraill er mwyn sicrhau y caiff gwasanaethau eu darparu mewn ffordd gyfartal a chyson
- Cyfran yr achosion o droseddau casineb sy'n digwydd dro ar ôl tro ar gyfer pob categori rydym yn ei fonitro (gyda'r nod o sicrhau lleihad yn nifer yr achosion sy'n digwydd dro ar ôl tro)
- Nifer yr achosion sy'n digwydd dro ar ôl tro fesul dioddefwr risg uchel (gyda'r nod o sicrhau lleihad yn nifer yr achosion sy'n digwydd dro ar ôl tro)
- Cyfran y dioddefwyr aflonyddu sy'n gysylltiedig â chasineb yr ystyrir eu bod yn risg uchel a atgyfeirir at broses asesu risg amlasiantaeth (gyda'r nod o gynyddu'r gyfran er mwyn diogelu mwy o ddioddefwyr)

Byddwn hefyd yn defnyddio ein Huned Ymchwil Ffôn, Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a'n cysylltiadau ag asiantaethau partner sy'n cynrychioli grwpiau lleiafrifol er mwyn dysgu mwy am sut mae dioddefwyr yn teimlo am y cymorth a gânt gan Heddlu De Cymru. Byddwn yn parhau i gasglu a dadansoddi data ymchwil ansoddol a meintiol er mwyn annog mwy o ddioddefwyr i roi gwybod am achosion o droseddau casineb a gwella'r gwasanaeth a ddarperir i ddioddefwyr lle bynnag y bo'n bosibl.

Amcan 2 (Stopio a Chwilio)

Byddwn yn datblygu ein dull o stopio a chwilio er mwyn sicrhau y caiff y pwerau eu defnyddio'n deg ac, yn benodol, y caiff anghymesuredd ethnig ei herio'n barhaus a/neu ei leihau.

Pam Rydym Wedi'i Ddewis

Mae Stopio a Chwilio yn dacteg bwysig ond cynhyrfaol a ddefnyddir gan yr heddlu er mwyn atal a darganfod troseddau. Mae gwaith ymchwil cenedlaethol a lleol yn parhau i nodi bod pobl dduon a phobl o leiafrifoedd ethnig yn cael eu stopio a'u chwilio yn anghymesur o'u cymharu â phobl o gefndir ethnig gwyn.

Mae Heddlu De Cymru wedi cymryd y mater hwn o ddifrif ac mae cyfraddau anghymesuredd wedi gostwng. Fodd bynnag, mae ymchwil yn dal i gael ei gwneud i'r maes hwn er mwyn canfod ffyrdd eraill o wella. Mae gwaith monitro a chraffu mewnol o ran ein defnydd o bwerau stopio a chwilio yn cael ei wneud gan Grŵp Adolygu Stopio a Chwilio yr heddlu a gadeirir gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol (Cymorth), sef Jon Stratford ar hyn o bryd. Mae prosesau sicrhau ansawdd wedi'u cymhwyso at gofnodion stopio a chwilio wedi'u cwblhau er mwyn sicrhau bod rhesymau clir a chyfreithlon dros chwilio unigolion wedi'u nodi.

Rydym am gynnwys aelodau o'r cyhoedd yn effeithiol yn y gwaith rydym yn ei wneud i fonitro gweithgarwch stopio a chwilio er mwyn sicrhau bod y broses yn dryloyw a'n bod yn agored i her briodol gan y gymuned. Bydd hyn yn golygu defnyddio aelodau o'r cyhoedd yn y gwaith o graffu ar ffurflenni stopio a chwilio wedi'u cwblhau.

Mae'r Heddlu wedi ymrwymo i 'Gynllun Defnydd Gorau o Stopio a Chwilio' y Swyddfa Gartref ac mae'r gwaith o'i weithredu'n llawn yn mynd rhagddo. Bydd hyn yn cynnwys cynlluniau i wahodd cysylltiadau cymunedol allweddol i samplu cofnodion stopio a chwilio ar hap yn rheolaidd er mwyn sicrhau ein bod yn craffu ar y broses yn effeithiol ac annog tryloywder. Yn ogystal â hyn, mae cynlluniau i adfywio ein cynllun 'Patrol Along', a fydd yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i fynd gyda swyddog ar batrôl a gweld y broses stopio a chwilio os bydd digwyddiad o'r fath yn codi.

Rydym am i'n cymunedau fod yn hyderus ein bod yn defnyddio pwerau stopio a chwilio yn briodol ac yn effeithiol a'n bod yn herio ein swyddogion ac yn eu dwyn i gyfrif wrth wneud hynny.

Yr Hyn Rydym Am Ei Gyflawni

Rydym am sicrhau bod Heddlu De Cymru yn gweithredu proses stopio a chwilio sy'n effeithiol ac yn seiliedig ar gyfreithlondeb a thegwch. Bydd y mesurau uchod yn sicrhau bod y rhesymau dros stopio a chwilio yn cael eu nodi'n glir a'u bod yn gyfreithlon ar gyfer pob achos o stopio a chwilio. Pan fydd pobl o gefndir lleiafrifoedd ethnig yn cael eu stopio a'u chwilio'n anghymesur caiff hyn ei nodi a chaiff y rhesymau dros hyn eu nodi ac ymdrinnir â hwy yn gyflym. Bydd cynnwys aelodau o'r gymuned yn y gwaith o oruchwylio'r

nodau hyn yn cynyddu hyder y gymuned yn ein proses ac yn sicrhau ein bod yn dryloyw ac yn atebol i'r cyhoedd. Byddwn hefyd yn sicrhau y caiff gwybodaeth sy'n berthnasol i weithgarwch Stopio a Chwilio ei chyhoeddi ar gyfer ein cymunedau.

Sut y Byddwn yn Mesur Cynnydd

Caiff y mesurau canlynol eu casglu a'u monitro:

1. Canlyniadau achosion o stopio a chwilio (er mwyn sicrhau bod y defnydd o'r pŵer yn seiliedig ar dystiolaeth a chudd-wybodaeth).
2. Y cyswllt rhwng amcanion datganedig achosion o stopio a chwilio a'r canlyniadau.
3. Y gymhareb pobl o gefndir gwyn sy'n cael eu stopio a'u chwilio i gyfran y boblogaeth o bobl wynion *yn erbyn* y gymhareb pobl o gefndir du a lleiafrifoedd ethnig sy'n cael eu stopio a'u chwilio i'r boblogaeth o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.
4. nifer y cwynion a geir mewn perthynas â stopio a chwilio.

Byddwn yn sicrhau bod pob proses sicrhau ansawdd yn cynnwys gwiriadau penodol o ran ethnigrwydd y rhai sy'n cael eu stopio a'u chwilio.

Mae'r pŵer i Stopio a Chwilio yn cael ei ddefnyddio yn llai aml a prin iawn yw'r cwynion a geir gan y cyhoedd yn ei gylch. Fodd bynnag, gall gweithredoedd rhagweithiol eraill gan yr heddlu megis stopio traffig ar y ffordd arwain cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i deimlo nad ydynt yn cael eu trin yn deg. Felly, dros gyfnod y cynllun, byddwn yn rhoi sylw i ddangosyddion eraill anghymesuredd posibl, megis cwynion gan y cyhoedd ynghylch anghwrteisi neu ogwydd o ran y defnydd a wneir o'r tactegau.

Amcan 3 (Hygyrchedd)

Byddwn yn ei gwneud hi'n haws i'r cyhoedd gyfathrebu â'r heddlu, yn arbennig y rhai ag anghenion mynediad penodol, pobl â nam corfforol neu nam ar y synhwyrâu a phobl ag anghenion llythrennedd neu iaith neu anghenion diwylliannol, gan gynnwys plant.

Pam Rydym Wedi'i Ddewis

Mae Heddlu De Cymru yn darparu gwasanaeth 24 awr i bawb yn Ne Cymru ac mae'n rhaid iddo allu ymateb yn effeithiol i unrhyw gyswllt gan y cyhoedd. Ein nod yw sicrhau mai ni yw'r 'gorau o ran deall ac ymateb i anghenion ein cymunedau'. Rydym yn gwybod bod angen i'r broses o gysylltu â ni fod yn deg ac yn gyfartal i bawb ac eto gall fod yn anos i rai nag i eraill. Mae Cynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddu yn blaenoriaethu'r angen i'w gwneud yn haws i'r cyhoedd gyfathrebu â'r heddlu, gan gynnwys y rhai ag anghenion amrywiol. Bydd amcan cydraddoldeb ar gyfer hygyrchedd yn golygu y caiff anghenion amrywiol o ran cyfathrebu a mynediad eu hystyried ac yr ymdrinnir â hwy yn strategol ym mhob rhan o Heddlu De Cymru.

Mae rhai grwpiau lleiafrifol yn Ne Cymru wedi dweud wrthym fod angen iddynt allu cyfathrebu â ni yn well a bod angen i ni gyfathrebu â hwy yn well. Rydym am roi prosesau ar waith er mwyn gwneud hyn yn bosibl.

Byddwn hefyd yn ceisio defnyddio iaith syml ym mhob agwedd ar ein gwaith. Byddwn yn ceisio osgoi defnyddio llythrennau blaen a thermoleg astrus a all fod yn gyfarwydd i rai ond sy'n cau allan y rhai nad ydynt yn gyfarwydd â hi.

Yr Hyn Rydym Am Ei Gyflawni

Rydym am i bawb yn Ne Cymru allu cyfathrebu â'r heddlu waeth beth fo'u hanghenion amrywiol. Rydym am iddynt wybod sut i wneud hynny ac ymddiried yn llwyr yn y systemau sydd ar waith. Rydym am weld amrywiaeth gwell o opsiynau i bobl gyfathrebu â ni a chael gwybod am ein gwaith, am eu hawliau a'r ffyrdd o gysylltu â ni e.e. fideos yn iaith Arwyddion Prydain, opsiynau o ran testun a chymorth uniongyrchol i bobl y mae angen help arnynt. Rydym hefyd am ddatblygu ffyrdd priodol ac effeithiol o gyfleu materion allweddol i blant ac ystyried anghenion cyfathrebu diwylliannol mewn cymunedau.

Sut y Byddwn yn Mesur Cynnydd

Defnyddir y dulliau canlynol i helpu i gyflawni ein nodau:

- Byddwn yn rhoi ap NGT gan Action on Hearing Loss (testun y genhedlaeth nesaf) ar waith er mwyn galluogi'r rhai â nam ar eu clyw i gysylltu'n haws â Heddlu De Cymru.

- Byddwn yn darparu hyfforddiant Ystyriol o Ddementia, a ddarperir gan Gymdeithas Alzheimer, i bob aelod o staff Canolfan Gwasanaethau'r Cyhoedd. Wrth wneud hynny bydd gennym y ganolfan cyswllt â'r heddlu gyntaf yn y wlad sydd wedi'i dynodi'n ganolfan sy'n 'Ystyriol o Ddementia'.
- Byddwn yn ystyried yr opsiwn i ddarparu hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl i staff Canolfan Gwasanaethau'r Cyhoedd gan ddefnyddio partneriaid yn y trydydd sector.
- Lle y ceir rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael mynediad i'n hadeiladau na allwn eu dileu, byddwn yn datblygu strategaethau arloesol i'w goresgyn.
- Byddwn yn gweithio i adolygu sut rydym yn cyfathrebu â phlant, yn arbennig ynghylch materion hanfodol megis Camfanteisio ar Blant yn Rhywiol.
- Byddwn yn datblygu ein dull hyfforddi fel ei fod yn cynnwys materion cyfathrebu diwylliannol a sensitif, er mwyn ceisio sicrhau y gallwn ddeall sefyllfa pawb yn ein cymunedau a diwallu eu hanghenion yn well.

Caiff y mesurau canlynol eu casglu a'u monitro:

- Byddwn yn mesur nifer y bobl sy'n cysylltu â ni gan ddefnyddio dulliau newydd, drwy sicrhau bod yr opsiynau rydym yn eu cynnig yn diwallu anghenion y boblogaeth gyfan pan fydd angen i bobl gysylltu â Heddlu De Cymru.
- Byddwn yn monitro nifer y cwynion a gawn ynghylch cyfathrebu a hygyrchedd, tra'n annog pobl i roi gwybod i ni am eu profiad.
- Byddwn yn ceisio nodi mesurau ar gyfer 'Pa mor hawdd ydyw i gysylltu' ar gyfer cymunedau penodol e.e. yng nghyfarfodydd Partneriaethau a Chymunedau Gyda'i Gilydd i Bobl Fyddar ('Deaf PACTS') a thrwy grwpiau cymunedol lleiafrifol.
- Byddwn yn annog grwpiau cymunedol lleol i ofyn cwestiynau penodol am ba mor hawdd ydyw i gyfathrebu a hygyrchedd ac yn mesur demograffeg/proffil cydraddoldeb y rhai rydym yn ymgysylltu â hwy.

Amcan 4 (Anghenion Amrywiol yn y Ddalfa)

Byddwn yn asesu anghenion pobl sy'n agored i niwed a'r rhai ag anghenion penodol sydd yn nalfa'r heddlu ac yn gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r anghenion hynny a nodir e.e. anghenion merched, plant, pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a phobl â chyflyrau iechyd meddwl neu anableddau corfforol neu synhwyraidd neu anableddau dysgu.

Pam Rydym Wedi'i Ddewis

Mae Heddlu De Cymru yn ceisio darparu ymateb proffesiynol a chadarnhaol i bawb a gedwir yn y ddalfa. Mae hawliau dynol ac iechyd a diogelwch yn hollbwysig yn y broses hon. Yn 2011 cafodd Heddlu De Cymru adroddiad arolygu dalfeydd cadarnhaol gan Arolygiaeth Cwnstablïaeth ei Mawrhydi ond argymhellwyd y dylai ystyried sut i ymateb i anghenion merched, plant a phobl sy'n agored i niwed mewn ffordd fwy rhagweithiol.

Yn hanesyddol mae dalfeydd wedi'u cynllunio a'u darparu fel amgylchedd i oedolion gwrywaidd yn bennaf ar gyfer pobl heb nam corfforol na nam ar y synhwyrau. Mae'n rhaid cydnabod yr angen i ymdrin yn effeithlon â'r grŵp mwyaf o bobl a dderbynnir i'r ddalfa - gan gynnwys unigolion heriol o dan amgylchiadau anodd. Fodd bynnag, mae angen i ni ystyried anghenion gwahanol hefyd, yn enwedig anghenion pobl agored i niwed sydd yn y ddalfa, y gallai unrhyw angen nas diwallwyd beri cryn bryder a gofid iddynt tra byddant yn cael eu cadw yn y ddalfa. Byddwn yn gweithio i sicrhau y gellir ymateb i bobl sy'n agored i niwed a'r rhai ag anghenion penodol yn y ffordd fwyaf priodol a datblygu mesurau gweithredu effeithiol.

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau wedi sefydlu prosiect er mwyn gweithio gyda chyrff iechyd i leihau nifer y bobl â chyflyrau iechyd meddwl a gedwir yn nalfa'r heddlu drwy sicrhau bod mannau diogel mwy priodol ar gael iddynt. Mae'n rhaid cydnabod bod pobl sy'n dioddef o salwch meddwl yn aml wedi'u dal yng nghelloedd yr heddlu am nad oes cyfleusterau GIG mwy priodol ar gael neu am fod y cyfleusterau hynny wedi gwrthod derbyn yr unigolyn. Rydym am weithio gyda'n partneriaid i ddatblygu'r ymateb mwy priodol i'r sefyllfa hon am ein bod yn cydnabod ei fod yn gyfrifoldeb a rennir y mae angen rhoi sylw iddo.

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl hefyd yn gweithio i gefnogi Prosiect Braenaru i Ferched De Cymru sydd â'r nod o ddarparu'r ymateb partneriaeth mwyaf priodol i ferched yn y System Cyfiawnder Troseddol. Byddwn yn cysylltu gwaith y prosiectau hyn â nodau ein hamcan cydraddoldeb.

Yr Hyn Rydym Am Ei Gyflawni

Rydym am sicrhau y gall pobl sy'n agored i niwed a'r rhai ag anghenion penodol sydd yn y ddalfa gael gwasanaethau priodol ac y cyfathrebir â hwy mewn ffordd briodol. Bydd hyn yn golygu y caiff eu profiad eu gwella ac na chânt eu rhoi o dan anfantais annheg ac y cânt eu cadw yn nalfa'r heddlu am gyn lleied o amser ag sydd ei angen.

Ar hyn o bryd mae bwlch o ran argaeledd mannau diogel a thriniaeth ar gyfer y rhai â chyflyrau iechyd meddwl, yn enwedig gyda'r nos ac ar y penwythnos. Er nad yw hyn yn dod o dan bwerau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl rydym yn ymrwymedig i weithio gydag asiantaethau eraill a Llywodraeth Cymru er mwyn mynd i'r afael â'r problemau ehangach hyn, tra'n ceisio sicrhau bod ymateb yr heddlu yn parhau i fod yn ystyriol o anghenion pobl sy'n agored i newid tra byddant o dan ein gofal neu yn y ddalfa ac yn sympathetig i'r anghenion hynny.

Mae Heddlu De Cymru wedi buddsoddi mewn codi ymwybyddiaeth a meithrin dealltwriaeth o broblemau iechyd meddwl ym mhob rhan o Heddlu De Cymru. Rydym am barhau â'r buddsoddiad hwn er mwyn sicrhau ein bod mewn gwell sefyllfa i roi cymorth priodol i'r rhai sy'n dioddef o salwch meddwl.

Sut y Byddwn yn Mesur Cynnydd

Caiff y mesurau canlynol eu casglu a'u monitro:

- Nifer a natur y cwynion a geir sy'n ymwneud ag unigolion yn cael eu cadw gan yr heddlu,
- Gwell gwybodaeth am ddemograffeg pobl a gedwir yn y ddalfa ac am ba hyd y cedwir pobl sy'n agored i niwed yn y ddalfa,
- Nifer yr oedolion a phlant/pobl ifanc â chyflyrau iechyd meddwl a gedwir yn nalfu'r heddlu fel man diogel (gyda'r nod o leihau'r nifer hon er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod dewisiadau amgen priodol ar gael),
- Byddwn yn datblygu ac yn cyflwyno dull o nodi lefelau boddhad merched a dynion yn y ddalfa er mwyn nodi unrhyw fylchau a all fod o ran y gwasanaethau a ddarperir a mynd i'r afael â hwy. Er mwyn ein cynorthwyo yn y broses hon byddwn yn gweithio gyda'r Prosiect Braenaru i Ferched.

Amcan 5 (Trais yn Erbyn Menywod a Merched)

Gan weithio gyda'n partneriaid ein nod yw cynyddu nifer yr achosion o drais o unrhyw fath yn erbyn menywod a merched y rhoddir gwybod amdanynt, gan gynnwys cam-drin domestig, Trais ar Sail Anrhydedd ac Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod a byddwn yn cefnogi mentrau i'w nodi'n gynnar ac ymyrryd.

Pam Rydym Wedi'i Ddewis

Mae Heddlu De Cymru yn delio â thua 27,000 o achosion o gam-drin domestig bob blwyddyn ac mae'n cyfrif am tua thraean o'n holl droseddau treisgar. Dengys ein data fod menywod yn fwy tebygol o gael eu cam-drin yn y cartref a dioddef trais ar sail anrhydedd ac mae gwaith ymchwil cenedlaethol yn dangos bod menywod a merched yn parhau i wynebu risg o ran anffurfio organau cenhedlu benywod.

Mae Cynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddu yn blaenoriaethu'r angen i fynd i'r afael â'r math hwn o drais ac yn 2013 comisiynydd adolygiad thematig o drais yn erbyn menywod a merched ar y cyd gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Arweiniodd yr argymhellion at gyhoeddi Cynllun Heddlu De Cymru ar gyfer 'Mynd i'r Afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched'.

Dangosodd canfyddiadau'r adolygiad thematig fod cam-drin domestig a mathau eraill o drais yn effeithio'n anghymesur ar fenywod o ran nifer yr achosion a'u lefelau difrifoldeb. Yn benodol, nododd yr adolygiad fod menywod yn dioddef achosion mynych o drais cyn iddynt roi gwybod i'r heddlu amdanynt a'i bod yn bosibl bod cyfleoedd yn cael eu colli ymhlith yr heddlu ac asiantaethau partner i nodi lle mae menywod yn cael eu cam-drin yn gynnar. Nodwyd gennym hefyd fod ymyrraeth gynnar effeithiol yn elfen hanfodol yn y broses o leihau'r tebygolrwydd y bydd menywod a merched yn dioddef trais dro ar ôl tro.

Bydd amcan cydraddoldeb sy'n canolbwyntio ar yr angen i fynd i'r afael â'r effaith anghymesur y mae cam-drin domestig, trais ar sail 'anrhydedd' ac anffurfio organau cenhedlu benywod yn ei chael ar fenywod a merched ac sy'n anelu at ddiwallu anghenion rhai o'n cymunedau sydd fwyaf agored i niwed, yn ei gwneud yn bosibl i ni fynd i'r afael â'r problemau hyn mewn ffordd strategol ledled ardal Heddlu De Cymru. Rydym hefyd yn cydnabod bod angen i ni feithrin gwell dealltwriaeth o ba mor gyffredin yw trais ar sail anrhydedd ac anffurfio organau cenhedlu benywod yng nghymunedau De Cymru, ac anghenion penodol rhai dioddefwyr cam-drin domestig sy'n agored i niwed, megis menywod anabl.

Yr Hyn Rydym Am Ei Gyflawni

Rydym am i fenywod a merched deimlo'n hyderus i roi gwybod i'r heddlu am achosion o gam-drin, gan wybod y cânt gymorth priodol. Rydym hefyd am sicrhau bod achosion o gam-drin yn cael eu nodi'n gynnar ac mae hyn yn cynnwys gweithio'n effeithiol gyda'n partneriaid. O'n profiad ni, bydd nodi achosion o drais yn erbyn menywod a merched ac

ymyrryd yn gynnar yn lleihau nifer yr unigolion sy'n dioddef trais dro ar ôl tro ac yn lleihau difrifoldeb y digwyddiadau a geir.

Sut y Byddwn yn Mesur Cynnydd

Defnyddir y dulliau canlynol i helpu i gyflawni ein nodau:

- Datblygu a chyflwyno Cynllun Gweithredu ar Drais ar Sail Anrhydedd ar gyfer y cyfnod, ynghyd â strwythur adrodd ffurfiol i fonitro cynnydd ym mhob un o'n pedair Uned Reoli Sylfaenol

Caiff y mesurau canlynol eu casglu a'u monitro:

- Nifer yr achosion o drais yn erbyn menywod a merched (gyda'r nod o weld cynnydd yn nifer yr achosion er mwyn dangos bod gan unigolion yr hyder i roi gwybod am achosion o drais).
- Nifer yr achosion o drais yn erbyn menywod a merched a atgyfeirir at Heddlu De Cymru gan asiantaethau partner (gyda'r nod o weld cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod achosion yn cael eu nodi'n gynnar).
- Nifer y menywod a merched sy'n dioddef cam-drin domestig a mathau eraill o drais dro ar ôl tro (gyda'r nod o weld lleihad yn nifer yr unigolion sy'n dioddef trais dro ar ôl tro er mwyn adlewyrchu ymyrraeth gynnar effeithiol).
- Cyfran yr achosion risg uchel o gam-drin domestig (gyda'r nod o leihau nifer yr achosion risg uchel er mwyn adlewyrchu ymyrraeth gynnar).
- Dadansoddiad o ddioddefwyr cam-drin domestig yn ôl nodwedd warchodedig lle y bo'n bosibl.

Byddwn yn gweithio gydag asiantaethau partner, gan gynnwys y sector iechyd, er mwyn annog nodi achosion o drais yn erbyn menywod a merched yn gynnar a'u hatgyfeirio. Byddwn hefyd yn gweithio i gasglu data gan ein partneriaid sy'n adlewyrchu realiti'r sefyllfa o ran nifer yr achosion a geir yn y maes trosedd hwn sy'n cael ei dangofnodi. Er enghraifft, byddwn yn gweithio i gasglu data effeithiol gan Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys a Gwasanaethau Mamolaeth sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod a merched ac yn cysylltu ein gwaith ehangach ar leihau nifer y troseddau treisgar er mwyn sicrhau bod gennym ddarlun llawnach o'r lefelau yn Ne Cymru.

Mae gwybodaeth fanwl am natur y gwaith hwn hefyd ar gael yng 'Nghynllun Heddlu De Cymru ar gyfer Mynd i'r Afael â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched'.

Amcan 6 (Gweithlu Cynrychioliadol)

Byddwn yn gweithio i gynyddu amrywiaeth gweithlu Heddlu De Cymru gan ganolbwynti'n benodol ar hil a rhyw er mwyn adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethir gennym yn well.

Pam Rydym yn ei Ddewis

Mae'n bwysig bod cyflogeion Heddlu De Cymru yn adlewyrchu'r amrywiaeth yng nghymunedau De Cymru a byddwn yn gweithio i sicrhau y rhoddir sylw i'r mater hwn mewn perthynas â'r holl nodweddion gwarchodedig lle nad oes gennym gynrychiolaeth ddigonol.

Yn benodol, ychydig o bobl o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig sydd wedi'u recriwtio i Heddlu De Cymru hyd yma ac mae angen i ni gynyddu cyfran swyddogion yr heddlu sy'n ferched a gyflogir gennym o hyd. Nid yw mentrau gweithredu cadarnhaol ym meysydd recriwtio a datblygu wedi cynyddu cynrychiolaeth o ran amrywiaeth yn ddigonol. Er ein bod wedi gweld newid cadarnhaol, gan gynnwys cynnydd sylweddol yng nghyfran y merched yn ystod y degawd diwethaf, mae angen gwneud llawer mwy er mwyn i ni fod yn wirioneddol gynrychioliadol o Dde Cymru. Mae'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd wedi rhoi pwyslais cryf ar bwysigrwydd gwella prosesau recriwtio, cadw a datblygu pobl dduon a phobl o leiafrifoedd ethnig a merched.

Er ei bod yn hanfodol parhau â'n gwaith i gynyddu cynrychiolaeth amrywiaeth ym mhob un o'r nodweddion gwarchodedig ac y byddwn yn gwneud hynny; mae angen i ni flaenoriaethu hil oherwydd y bwlch mawr sy'n bodoli er mwyn bod yn wirioneddol gynrychioliadol o'n poblogaeth. Dim ond 2.2% o swyddogion yr heddlu yn ein hardal sy'n bobl dduon a phobl o leiafrifoedd ethnig ond maent yn cyfrif am 6.6% o'n poblogaeth. Mae recriwtio a datblygu merched yn dal i fod yn destun pryder. Erbyn hyn mae merched yn cyfrif am ychydig dros chwarter swyddogion yr heddlu yn ein hardal ond ychydig dros hanner ein poblogaeth.

Yn benodol, nid oes cynrychiolaeth ddigonol o swyddogion o leiafrifoedd ethnig yn yr uwch rengoes nac o ferched na lleiafrifoedd ethnig mewn rhai adrannau arbenigol. Rydym yn cydnabod bod angen i ni fynd i'r afael â hyn drwy fabwysiadu dulliau gweithredu cadarnhaol ac asesu effaith ein polisiau a'n gweithdrefnau recriwtio a datblygu ar grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn barhaus. Er mwyn i ni sicrhau mai Heddlu De Cymru 'yw'r

gorau am ddeall ac ymateb i anghenion ein cymunedau' mae angen i ni sicrhau bod ein staff ein hunain yn cynrychioli ein cymunedau er mwyn i ni allu darparu ymateb effeithiol a phriodol i bawb.

Yr Hyn Rydym Am Ei Gyflawni

Rydym am weld cynnydd parhaus yng nghyfran swyddogion yr heddlu sy'n ferched a chynnydd yng nghyfran y bobl dduon a phobl o leiafrifoedd ethnig yn Heddlu De Cymru. Rydym yn rhoi pwyslais cryf ar amrywiaeth ymysg y cyflogeion newydd a gaiff eu recriwtio i'r Gwnstabiliaeth Gynorthwyol. Recriwtio yw'r cam cyntaf hanfodol ond mae cadw a datblygu hefyd yn hollbwysig. Rydym am gynyddu nifer y swyddogion sy'n ferched a nifer y swyddogion o leiafrifoedd ethnig ar lefelau uwch o'r sefydliad ac mewn rhai adrannau arbenigol.

Sut y Byddwn yn Mesur Cynnydd

Caiff y mesurau canlynol eu casglu a'u monitro:

- Canran y swyddogion a staff o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a gyflogir gennym,
- Canran y swyddogion sy'n ferched a gyflogir gennym,
- Canran yr ymgeiswyr o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a'r ymgeiswyr sy'n ferched i unrhyw broses recriwtio ar gyfer swyddogion, staff, swyddogion cymorth cymunedol a Chwnstabiliaid Cynorthwyol,
- Canran y recriwtiaid o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a'r recriwtiaid sy'n ferched sy'n llwyddo mewn unrhyw broses recriwtio,
- Canran y cyflogeion sy'n dod o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (swyddogion yn unig) a'r cyflogeion sy'n ferched sy'n gwneud cais i brosesau dyrchafu mewnol,
- Canran y cyflogeion sy'n dod o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (swyddogion yn unig) a'r cyflogeion sy'n ferched sy'n llwyddo mewn prosesau dyrchafu mewnol.

Ein nod yw sicrhau cynnydd ym mhob un o'r mesurau uchod er mwyn adlewyrchu camau gweithredu cadarnhaol effeithiol.

Byddwn hefyd yn mesur y canlynol:

- Dosbarthiad cyflogeion o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a chyflogeion sy'n ferched ym mhob rheng/gradd ac mewn adrannau arbenigol,
- Canran flynyddol y swyddogion a'r staff sy'n ferched a'r swyddogion a'r staff o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sy'n gadael yr heddlu.

Byddwn yn cwblhau adolygiadau thematig o brosesau recriwtio, dethol a datblygu mewn perthynas â hil a rhyw. Bydd yr adolygiadau hyn yn cynnwys ystyried materion

diwylliannol sy'n effeithio ar gyflogeion o grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a chyflogeion sy'n ferched fel y gellir cymryd camau priodol lle y bo angen.

Rydym hefyd yn anelu at ddatblygu Strategaeth Gweithredu Cadarnhaol ar gyfer Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a byddwn yn mesur ein llwyddiant yn erbyn y camau gweithredu rydym yn eu nodi ynddi.

Sut mae'r Amcanion yn Cysylltu â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol

Dengys y tabl isod lle mae pob amcan yn gweithio tuag at gyflawni tri nod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

	Gweithio i ddileu achosion o wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth	Gweithio i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu	Gweithio i feithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu
Amcan 1 (Troseddau Casineb)	*		*
Amcan 2 (Stopio a Chwilio)	*		*
Amcan 3 (Hygyrchedd)	*	*	*
Amcan 4 (Anghenion amrywiol yn y Ddalfa)	*	*	*
Amcan 5 (Trais yn Erbyn Menywod a Merched)	*	*	
Amcan 6 (Gweithlu cynrychioliadol)	*	*	*

Pwy gymerodd ran yn y broses o Bennu ein Hamcanion

Mae pob amcan wedi'i ddewis ar sail data penodol a ddelir gennym sy'n dangos bod angen i ni wella, neu ar sail gwaith ymchwil lleol neu genedlaethol sy'n nodi meysydd o anghydraddoldeb.

Rydym wedi ymgynghori â Phrif Swyddogion, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, arweinwyr strategol allweddol a'r Panel Cydraddoldeb Strategol ynghylch y blaenoriaethau a ddewiswyd gennym ac wedi gweithio gyda hwy er mwyn sicrhau ein bod wedi nodi meysydd gweithredu allweddol i ddatblygu'r blaenoriaethau hynny. Mae'r Panel Cydraddoldeb Strategol yn cynnwys uwch aelodau o sefydliadau cydraddoldeb yn ardal Heddlu De Cymru. Mae hefyd yn cynnwys Cadeiryddion ein pedwar Grŵp Cydlyniant Cymunedol sy'n gweithredu ym mhob un o'n Hunedau Rheoli Sylfaenol. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys pobl leol o gefndiroedd amrywiol sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol. Caiff yr amcanion eu monitro a'u hadolygu drwy ein Panel Cydraddoldeb Strategol, gan sicrhau y rhoddir mewnbwn allanol yn barhaus.

Monitro ac Adolygu'r Amcanion

Caiff Bwrdd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol Heddlu De Cymru, a gadeirir gan y Prif Gwnstabl, ei hysbysu am y cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn yr amcanion. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cyflogeion allweddol o bob rhan o Heddlu De Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu'r agenda amrywiaeth ac yn ymrwymedig i wneud hynny. Bydd y broses fonitro hon yn sicrhau atebolrwydd am yr amcanion ym mhob rhan o Heddlu De Cymru.

Hefyd, o leiaf ddwywaith y flwyddyn, caiff y Grŵp Cynllunio a Pherfformiad a Bwrdd Strategol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, a gadeirir gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ac a fynychir gan eu Prif Swyddogion, eu hysbysu am y cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn yr amcanion. Bydd y broses llywodraethu ac adolygu hon yn sicrhau y canolbwyntir ar gydraddoldeb ac amrywiaeth fel mater o flaenoriaeth o fewn Heddlu De Cymru a bod arweiniad cryf ar faterion cydraddoldeb. Byddwn hefyd yn trafod cynnydd yn erbyn ein hamcanion yn rheolaidd â'n Panel Cydraddoldeb Strategol y bydd ei aelodau yn helpu i bennu blaenoriaethau a chatau gweithredu Heddlu De Cymru yng nghyd-destun cymunedau ehangach De Cymru.

Byddwn yn cyhoeddi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflawni ein hamcanion yn ein cyhoeddiad blyneddol, 'Gwybodaeth am Gydraddoldeb', a fydd yn nodi sut rydym yn cyflawni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol.

Casgliad

Rydym wedi pennu amcanion cydraddoldeb a fydd yn dileu anfantais ac yn hyrwyddo cydraddoldeb a thegwch i'n cyflogeion a'r rhai sy'n dod i gysylltiad â Heddlu De Cymru, yn ein barn ni. Caiff yr amcanion eu cyfleu i bob rhan o'r sefydliad fel bod pob unigolyn ac uned ac adran sefydliadol yn deall eu rolau unigol a'u cyfrifoldebau i'w cyflawni.

Croesewir unrhyw sylwadau ar ffyrdd y gallwn ddatblygu'r gwaith hwn a gwella ein perfformiad.

Cysylltu â Ni:

E-bost: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
publicservicecentre@south-wales.pnn.police.uk
Twitter: @swpolice @commissionersw **Ffôn:** 101